



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Gorffennaf 2011

Awdur: Heather Cottrell

Cyf: 262A2011

Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau  
Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon  
lau dan Hyfforddiant – Gwaith Dilynol

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro  
Morgannwg**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi rotâu meddygon iau sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar waith ac ategir hyn gan ffyrdd amgen o weithio ond mae angen monitro gwir oriau gwaith meddygon iau yn ofalus a'r goblygiadau o ran gofal cleifion.

## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| <b>Crynodeb ac Argymhellion</b>  | 4  |
| Mae pob un o rotâu meddygon iau y Bwrdd Iechyd, mewn egwyddor, bellach yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd   | 6  |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ffyrdd amgen o weithio er mwyn lleihau oriau gwaith meddygon iau, ond nid ar sail gyson eto, ac mae pryderon sylweddol ynghylch effaith cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar ofal cleifion | 7  |
| Mae trefniadau monitro rotâu ar waith ond gellid eu gwella a cheir tystiolaeth na chaiff oriau gwaith eu cofnodi'n gywir bob amser   | 11 |
| Nid yw cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn rhan o fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd   | 12 |
| <b>Atodiadau</b>   |    |
| Ymatebion Holiadur Meddygon Ymgynghorol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (2010)  | 13 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

## Crynodeb

1. Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddwyd adroddiad Cymru gyfan gennym ar gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau dan hyfforddiant. Ystyriodd y gwaith archwilio lleol a wnaed cyn yr adroddiad hwnnw y trefniadau a roddwyd ar waith gan ymddiriedolaethau'r GIG ar y pryd i sicrhau cydymffurfiaeth erbyn mis Awst 2009. Canolbwyntiwyd ar y gofyniad na ddylai meddygon iau fod yn gweithio mwy na 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd.
2. Daeth ein hadroddiad Cymru gyfan i'r casgliad, yn seiliedig ar faint o gynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd flaenorol a'r heriau a wynebwyd o hyd, ei bod yn annhebygol y byddai GIG Cymru yn ei gyfanrwydd yn cyflawni'r targed 48 awr yn brydlon. Hynny yw, o leiaf, heb naill ai fuddsoddi ymdrech ac adnoddau sylweddol neu, mewn rhai ardaloedd, ymestyn terfyn amser mis Awst 2009 dros dro o bosibl.
3. Yn ein hadroddiad lleol i Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Bro Morgannwg (Medi 2008) dygwyd ynghyd ganfyddiadau gwaith archwilio a gynhaliwyd cyn uno'r Ymddiriedolaethau ym mis Ebrill 2008. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y ddwy ymddiriedolaeth flaenorol (Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg) wedi gwneud cynnydd cyson tuag at gydymffurfio ag wythnos waith nad oedd yn fwy na 48 awr ar gyfer meddygon iau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn ym mhob arbenigedd clinigol erbyn mis Awst 2009, roedd angen i Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg (a'r Bwrdd Iechyd ar ôl hynny) bennu cyfeiriad clir a gwneud cynnydd pellach, gweithredu trefniadau llywodraethu unedig a rhannu arfer da.
4. Cyflwynodd nifer o Fyrddau Iechyd yng Nghymru gais i Lywodraeth Cymru am rannu rannu dros dro mewn meysydd clinigol arbenigol lle'r oedd yn annhebygol y llwyddid i gydymffurfio ag wythnos waith nad oedd yn fwy na 48 awr erbyn terfyn amser mis Awst 2009. Nid yw'r rhanddirymiadau hyn yn berthnasol i bob meddyg iau ond yn hytrach i'r rheini sy'n gweithio rotâu penodol. Lle rhoddwyd rhanddirymiadau, roedd disgwyl i fyrddau iechyd leihau oriau gwaith wythnosol cyfartalog ar y rotâu hyn i 52 awr yr wythnos neu lai. Hefyd, mae rhanddirymiadau ond yn gymwys tan fis Awst 2011 neu, mewn achosion eithriadol, gellir eu hymestyn i fis Awst 2012.
5. Ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) rhoddwyd rhanddirymiadau i'r meysydd arbenigol canlynol:
  - Pediatreg - graddau hyfforddi uwch ac iau yn Ysbyty Tywysoges Cymru a graddau uwch yn Ysbytai Singleton a Threforys;
  - Pediatreg newyddenedigol - graddau hyfforddi iau yn Ysbyty Singleton;
  - Niwrolawdriniaeth - graddau hyfforddi uwch ac iau yn Ysbyty Treforys; ac
  - Meddygaeth gyffredinol (gan gynnwys endocrinoleg, meddygaeth anadlol, gastroenteroleg, cardioleg a gofal yr henoed) - graddau hyfforddi iau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

- 
6. Pwysleisiodd ein hadroddiad ar gyfer Cymru gyfan y gallai newidiadau a wnaed er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth fod yn anodd eu cynnal yn ymarferol. Ymysg problemau posibl a allai effeithio ar gynnydd mae: dim arian ar gyfer swyddi ychwanegol; y problemau recriwtio; staff yn gwrthwynebu ffyrdd newydd o weithio neu bryderon ynghylch effaith lleihau oriau gwaith ar ansawdd hyfforddiant proffesiynol. Pwysleisiodd yr adroddiad hefyd y risg na fyddai patrymau rota a nodwyd, er yn cydymffurfio mewn egwyddor, yn adlewyrchu patrymau gwaith gwirioneddol.
7. O ystyried y problemau hyn, penderfynwyd cynnal adolygiad dilynol i weld a yw'r Bwrdd Iechyd Bellach mewn sefyllfa dda i sicrhau ei fod yn cynnal, a lle y bo angen yn gwella, cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau <sup>1</sup>. Daethom i'r casgliad canlynol: 'Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi rotâu meddygon iau sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar waith ac ategir hyn gan ffyrdd amgen o weithio ond mae angen monitro gwir oriau gwaith meddygon iau yn ofalus a'r goblygiadau o ran gofal cleifion.' Yn fwy penodol:
- mae pob un o rotâu meddygon iau y Bwrdd Iechyd, mewn egwyddor, bellach yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd;
  - mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ffyrdd amgen o weithio er mwyn lleihau oriau gwaith meddygon iau, ond nid ar sail gyson eto, ac mae pryderon sylweddol ynghylch effaith cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar ofal cleifion;
  - mae trefniadau monitro rotâu ar waith ond gellid eu gwella a cheir tystiolaeth na chaiff oriau gwaith eu cofnodi'n gywir bob amser; ac
  - nid yw cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn rhan o fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd.

## Argymhellion

|    |  |
|----|--|
| A1 | Adeiladu ar wersi a ddysgwyd wrth gyflawni gweithgareddau clinigol mewn ffyrdd gwahanol er mwyn ategu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd drwy: <ul style="list-style-type: none"><li>• asesu cyfleoedd i hyrwyddo ac ymestyn rolau Ymarferwyr Nyrsio; ac</li><li>• ail-lansio dull mwy cyson o weithredu Ysbytai Liw Nos (a lle y bo'n briodol Ysbytai dros y Penwythnos ac Ysbytai yn ystod y Dydd), nodi a defnyddio arfer da presennol a diffinio rolau aelodau timau amlddisgyblaethol yn glir.</li></ul> |
|----|--|

---


<sup>1</sup> Yn ein gwaith archwilio diweddar ar gontract meddygon ymgynghorol, cynhaliwyd arolwg o feddygon ymgynghorol a oedd yn cynnwys cwestiynau am gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a'i heffaith. Ymatebodd 110 o feddygon ymgynghorol a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd (24 y cant o'r cyfanswm a gyflogir). Nodir eu barn yn Atodiad 1 ochr yn ochr â'n canfyddiadau ar gyfer Cymru gyfan.

|    |  |
|----|--|
| A2 | Ailsefydlu Grŵp Ysbytai Liw Nos er mwyn goruchwyllo'r gwaith o ail-lansio Ysbytai Liw Nos a darparu gwasanaethau clinigol effeithiol yn barhaus, gan sicrhau y ceir parhad wrth drosglwyddo gofal a gwneud gwaith amlddisgyblaethol.             |
| A3 | Gweld a oes systemau priodol ar waith i asesu perfformiad clinigol meddygon iau fel mater o drefn mewn ffordd systematig a chyson, gan gynnwys defnyddio proffiliau asesu, ac atgyfnerthu trefniadau presennol lle y bo angen.                   |
| A4 | Sicrhau y caiff gweithgareddau monitro eu cyflawni yn unol â gofynion y Fargen Newydd a chymryd camau i sicrhau bod meddygon iau yn cymryd mwy o ran yn y broses.  |
| A5 | Datblygu systemau priodol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ac ar gyfer mynd i'r afael â materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformad corfforaethol. |

## Mae pob un o rotâu meddygon iau y Bwrdd Iechyd, mewn egwyddor, bellach yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd

8. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ers ein hadroddiad ym mis Medi 2008, o ran sicrhau bod holl rotâu meddygon iau yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Eto i gyd, cyn cyflwyno'r rheol 48 awr yr wythnos, cadarnhaodd ein hadroddiad blaenorol, ym mis Gorffennaf 2008, fod 28 y cant o feddygon iau yn gweithio rotâu o fwy na 48 awr yr wythnos.
9. Dengys Arddangosyn 1 oriau gwaith wythnosol cyfartalog yr holl feddygon iau, yn seiliedig ar rotâu a oedd ar waith yn y Bwrdd Iechyd ar 7 Chwefror 2011. Yn ôl y siart mae'r holl rotâu yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, sef 48 awr yr wythnos neu lai ar gyfartaledd. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd clinigol arbenigol pediatreg, pediatreg newyddenedigol, niwrolawdriniaeth a meddygaeth gyffredinol a gafodd randdirymiaidau cyn hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a chytuno ar rotâu newydd yn y meysydd arbenigol hyn ac wedi eu rhoi ar waith.

### Arddangosyn 1: Oriau Gwaith Wythnosol Cyfartalog meddygon iau - yn seiliedig ar rotâu cymeradwy



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru - o system fyw MRM ar 7 Chwefror 2011.

10. Pennwyd y mwyafrif o'r rotâu yn unol â'r uchafswm 48 awr neu'n agos ato ac, yn anochel bydd yn fwy o her sicrhau bod y rotâu hyn yn cydymffurfio yn ymarferol. O blith y 568 o feddygon iau, roedd 78 y cant (443) yn gweithio ar rotâu rhwng 47 a 48 awr yr wythnos.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ffyrdd amgen o weithio er mwyn lleihau oriau gwaith meddygon iau, ond nid ar sail gyson eto, ac mae pryderon sylweddol ynghylch effaith cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar ofal cleifion**

**Er y gwnaed cynnydd clir o ran datblygu Ysbytai Liw Nos ac ehangu rolau nyrsio, mae angen cymryd camau gweithredu pellach er mwyn darparu gwasanaethau cyson a chynaliadwy**

11. Er i swydd Rheolwr Prosiect/Cydgysylltydd y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd gael ei hystyried pan luniwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2008, ni chafodd ei llenwi byth. Fodd bynnag, rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu rotâu sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Pan sefydlwyd y Bwrdd Iechyd datblygwyd y gwaith hwn ar y dechrau gan y Grŵp Moderneiddio er mwyn sicrhau bod y gwaith o gynllunio'r rotâu yn cysylltu'n effeithiol â chynlluniau'r sefydliad ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth.
12. Ar ôl y gwaith cychwynnol hwn, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am lunio rotâu sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (ym mis Rhagfyr 2009) i Adran Adnoddau Dynol Meddygol y Bwrdd Iechyd. Mae'r adran hon yn parhau i

---

ddarparu cymorth o ran cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, gan asesu effaith y newidiadau presennol ac arfaethedig i'r gwasanaeth clinigol ar gynllun y rotâu a threfniadau monitro rotâu.

13. Heb y rhyddid ariannol i recriwtio rhagor o feddygon, hyd yn oed gan dybio y gellid llenwi swyddi ychwanegol, mae cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn anochel wedi golygu bod angen gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff gweithgareddau clinigol craidd eu cyflawni. Yn gyffredinol, nododd 73 y cant o'r meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg fod y prif arbenigedd/adran yr oeddent yn gweithio ynddi wedi ailwampio rotâu meddygon iau yn ystod y 18 mis blaenorol er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Nododd ychydig yn fwy na chwarter (27 y cant) fod ad-drefnu'r gwasanaeth yn ffactor bwysig o ran sicrhau cydymffurfiaeth.
14. Mae ailwampio rolau nyrsio hefyd wedi bod yn ffactor bwysig yn y gwaith o gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Mae meysydd arbenigol clinigol wedi cael budd o ddatblygu rolau ymarferwyr nyrsio gan gynnwys Obstetreg a Gynecoleg ac Orthopedeg. Yn y meysydd arbenigol hyn, mae ymarferwyr nyrsio yn cyflawni rhai o'r gweithgareddau clinigol craidd a wnaed gan feddygon iau o'r blaen. Er bod tystiolaeth o arfer da, nid yw nifer o feysydd arbenigol wedi datblygu rolau nyrsio ehangach. Yn wir, cafwyd gwrthwynebiad i ddatblygu dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau clinigol mewn rhai meysydd. Nododd ychydig dros draean (35 y cant) o'r meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg y gwneir mwy o ddefnydd o ymarferwyr nyrsio yn eu prif arbenigedd/adran.
15. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal y tu allan i oriau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu trefniadau Ysbytai Liw Nos <sup>2</sup> ym mhob un o'i bedwar prif ysbyty. Soniwyd am ddatblygiad cynnar Ysbytai Liw Nos yn ein hadroddiad ym mis Medi 2008 ac rydym yn cydnabod y gwnaed rhywfaint o gynnydd pellach i ddatblygu a mireinio ei weithrediad.
16. Ceir enghreifftiau cadarnhaol o waith amlddisgyblaethol, fel y dangoswyd gan dîm Ysbytai Liw Nos meddygol Ysbyty Treforys. Fodd bynnag, mae tîm Ysbytai Liw Nos llawfeddygol yr ysbyty hwnnw wedi cael anawsterau gweithredol yn ddiweddar. Ar ôl trosglwyddo gwasanaethau llawfeddygol brys a chymhleth i Ysbyty Treforys ym mis Rhagfyr 2010, penderfynodd uwch aelodau o staff meddygol beidio â chynnal y cyfarfod trosglwyddo gofal min nos amlddisgyblaethol yn yr ystafell Ysbytai Liw Nos benodedig. Yn hytrach, cynhelir y cyfarfod mewn amgylchedd ward a dim ond staff meddygol a wahoddir. O ganlyniad, ni chaiff y broses o ddyrannu gwaith ei thrafod na'i chytuno gan y tîm cyfan. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd o ddiffyg cyfathrebu ac y ceir llai o barhad o ran gofal cleifion. O ganlyniad ni wneir y defnydd gorau o fanteision gwaith amlddisgyblaethol, sy'n hanfodol i Ysbytai Liw Nos.

---

<sup>2</sup> Mae cysyniad Ysbytai Liw Nos yn seiliedig ar y syniad o gael dim ond y rheini sydd angen bod yn y gwaith yn y gwaith drwy gyflwyno timau amlbroffesiynol cyffredinol. Byddai gan y timau hyn y cymwysterau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion uniongyrchol cleifion.



- 
17. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd un dull gweithredu safonol ar gyfer Ysbytai Liw Nos, ac mae'r systemau yn y pedwar prif ysbyty yn ystyried amgylchiadau lleol. Er bod rhywfaint o amrywiad lleol yn angenrheidiol ac o fudd, mae'r tîm rheoli wedi cydnabod bod angen systemau gweithio cyffredin sy'n galluogi meddygon iau ac ymarferwyr nyrsio i ddeall eu rolau perthnasol yn glir. Deallwn fod dull mwy strwythuredig wrthi'n cael ei ddatblygu rhwng Ysbytai Treforys a Singleton, drwy benodi Cydgysylltydd Ysbytai Liw Nos yn ddiweddar (Tachwedd 2010) ar gyfer y ddau safle. Rhydd gyfle gwerthfawr i adolygu a symleiddio systemau a nodi a rhannu arfer da.
  18. Gallai'r dull gweithredu Ysbytai Liw Nos mwy unedig sy'n cael ei fabwysiadu yn Abertawe lywio'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn Ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r systemau Ysbytai yn ystod y Dydd ac Ysbytai dros y Penwythnos, estyniadau o'r egwyddor sy'n sail i'r dull Ysbytai Liw Nos, wedi cael eu datblygu yn Ysbyty Tywysoges Cymru hefyd. Dylai'r profiad hwn ddarparu gwersi i unrhyw ysbytai eraill a fydd yn eu mabwysiadu yn y dyfodol.
  19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod y trefniadau presennol ar gyfer Ysbytai Liw Nos wedi bod ar waith ar eu ffurf bresennol ers cryn amser ac mae angen eu hadolygu. Yn gyffredinol, dim ond 21 y cant o'r meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg a nododd fod unrhyw estyniad, yn eu prif arbenigedd/adran, i'r defnydd a wneir o naill ai Ysbytai Liw Nos, Ysbytai yn ystod y Dydd neu Ysbytai dros y Penwythnos yn ystod y 18 mis blaenorol. Yn yr un modd, mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i ehangu rôl yr ymarferydd nyrsio, lle y gellir dangos ei fod yn werthfawr, i wasanaethau clinigol eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried 'ail-lansio' Ysbytai Liw Nos er mwyn rhoi hwb newydd i ddatblygu'r gwasanaeth. Gallai ailsefydlu Grŵp Ysbytai Liw Nos ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth mwy cydlynus yn seiliedig ar werthuso systemau presennol.

- 
20. Er bod cyflawni'r targed 48 awr wedi bod yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd, nid yw asesu'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio yn syml. Mae costau ychwanegol wedi cynnwys costau meddygol a nyrsio mewn amrediad o feysydd arbenigol. Gwelwyd cysylltiad agos rhwng costau ychwanegol a mentrau eraill megis y 'Fargen Newydd', a oedd yn ymwneud ag amrediad o fesurau i wella amodau meddygon iau. Felly, nid oes costau pendant ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

## **Ceir pryderon sylweddol ynghylch effaith gyffredinol cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar ofal cleifion**

21. Gan fod meddygon iau yn gweithio llai o oriau, gall parhad gofal fod yn anoddach ei ddarparu. Pan ofynnwyd i feddygon ymgynghorol am effaith gyffredinol y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar eu harbenigedd/adran, nododd ychydig yn llai na thri chwarter ohonynt (72 y cant) effaith negyddol ar safon y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaeth cyfran debyg (71 y cant) dynnu sylw at yr effaith negyddol ar safon a diogelwch y gwasanaeth a ddarperir. Nododd llawer o feddygon ymgynghorol fod safon a diogelwch y gofal wedi gostwng oherwydd bod llai o barhad. Roeddent o'r farn bod gan feddygon iau lai o brofiad o drin cleifion yn ystod eu harhosiad fel cleifion mewnol bod llai o gyfleoedd ganddynt i ennill profiad mewn amgylcheddau ward, theatr a chleifion allanol.
22. Gellid gwneud iawn am y ffaith bod meddygon iau yn gweithio llai o oriau drwy gynyddu oriau gwaith meddygon ymgynghorol. Yn gyffredinol, gwnaeth 41 y cant o feddygon ymgynghorol dynnu sylw at y defnydd ehangach o feddygon ymgynghorol yn ystod y 18 mis blaenorol yn eu harbenigedd/adran er mwyn cefnogi'r gwaith o gydymffurfio'r â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.
23. Gall lleihau oriau gwaith meddygon iau effeithio'n andwyol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant a gweithio ochr yn ochr â chlinigwyr ar lefel uwch. Mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr yn argymhell rotâu mwy o faint yn cynnwys 12 neu fwy o gyfranogwyr er mwyn cefnogi gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Yn gyffredinol, maint rota'r Bwrdd Iechyd ar gyfartaledd yw tua wyth o gyfranogwyr, a dim ond cyfran fach iawn (11 y cant o'r rotâu) sydd â 12 o gyfranogwyr neu ragor. O'r 44 o feddygon ymgynghorol a wnaeth sylwadau ychwanegol yn ein harolwg, cododd dros hanner ohonynt bryderon ynghylch yr amser sydd ar gael i hyfforddi meddygon iau. Nodwyd bod meddygon iau yn meithrin sgiliau yn arafach nag o'r blaen, o ganlyniad i lawer o weithio y tu allan i oriau heb lawer o oruchwyliath a heb gymorth seilwaith tîm. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cyflwyno swyddi meddygon ymgynghorol sy'n gyfrifol am hyfforddi meddygon iau a swyddi meddygon ymgynghorol eraill sy'n darparu gofal clinigol yn unig. Nid yw'n glir eto faint o effaith y byddai hyn yn ei chael ar wella cyfleoedd hyfforddi.
24. Mae cysylltiad agos rhwng ansawdd y gwaith a wneir gan feddygon iau a'r cyfle sydd ar gael i hyfforddi a datblygu. Un ffordd o fonitro sgiliau meddyg iau yw drwy ddefnyddio Proffil Asesu. Mae'r proffiliau hyn yn galluogi meddyg ymgynghorol neu gofrestrydd i asesu a yw perfformiad clinigol meddyg iau mewn amrywiaeth o driniaethau yn gymwys. Dywedodd cynrychiolydd meddygon iau wrthym er ei fod ef a'i gydweithwyr yn cyflawni nifer o'r triniaethau clinigol hyn, eu bod yn cael

---

anawsterau i drefnu asesiadau o berfformiad clinigol yn rheolaidd. Roedd yr anawsterau hyn yn deillio o batrymau gwaith meddygon iau a'r cyfleoedd prin i weithio ochr yn ochr ag uwch feddyg a chael eu hasesu ganddo.

25. Deallwn fod gwaith yn mynd rhagddo ar un rota lle mae pryderon ynghylch cydymffurfio sy'n gysylltiedig yn benodol â chyfleoedd addysg a hyfforddiant. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn trafod y rota hon (Meddygaeth Integredig yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot) gyda'r Ddeoniaeth.

## **Mae trefniadau monitro rotâu ar waith ond gellid eu gwella a cheir tystiolaeth na chaiff oriau gwaith eu cofnodi'n gywir bob amser**

26. O dan ddarpariaethau trefniadau cytundebol y 'Fargen Newydd' ar gyfer meddygon iau, disgwylir i'r Bwrdd Iechyd fonitro rotâu meddygon iau ddwywaith y flwyddyn. Hefyd, dylid monitro unrhyw rotâu newydd chwe wythnos ar ôl eu rhoi ar waith. Mae gan y Bwrdd Iechyd rai trefniadau sefydledig ar waith ar gyfer monitro rotâu, wedi'u cydgysylltu gan yr adran Adnoddau Dynol Meddygol. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru na chaiff rotâu pob Bwrdd Iechyd eu monitro ddwywaith y flwyddyn. Hefyd, ar nifer o achlysuron mae lefel isel cyfranogiad meddygon iau yn annilysu'r ymarfer.
27. Mae gwaith monitro yn galluogi meddygon iau i gofnodi'r sifftiau maent wedi eu gweithio yn ystod cyfnod o bythefnos ar system rota yn seiliedig ar y we eu hunain. Fodd bynnag, mae meddygon iau yn nodi nad ydynt bob amser yn cael y ceisiadau monitro rota oherwydd defnyddir cyfeiriadau e-bost anghywir ac ymddengys na chaiff diwygiadau eu cofnodi'n systematig.
28. Wrth gwblhau ffurflenni monitro, ni all meddygon iau gofnodi'r oriau ychwanegol maent yn eu gweithio ar ôl i sifft orffen oni bai bod eu meddyg ymgynghorol wedi cytuno eu bod yn gweithio'r amser ychwanegol. Yn ôl meddygon iau gall fod yn anodd cysylltu â meddygon ymgynghorol er mwyn cael eu cytundeb i aros ar ddiwedd sifft ac felly ni chaiff y gwaith ychwanegol y mae meddygon iau yn ei wneud ei gofnodi'n gywir. Gall methu â chofnodi'r oriau a weithiwyd yn gywir atal meddygon iau rhag cwblhau'r ffurflenni monitro.
29. Nododd cynrychiolydd meddygon iau eu bod yn aml yn gweithio mwy na'u horiau rota er mwyn cwblhau tasgau sy'n gysylltiedig â chleifion. Yn gyffredinol, roedd 24 y cant o'r meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg o'r farn bod meddygon iau yn dal i orfod gweithio mwy na'u horiau contract er mwyn bodloni gofynion y swydd. Hefyd, nid oedd bron i draean o ymatebwyr yr arolwg o feddygon ymgynghorol (32 y cant) yn gwybod a oedd meddygon iau yn gweithio mwy na'u horiau contract. Er i rai gyfeirio at feddylfryd gynyddol o wyllo'r cloc, roedd eraill yn cydnabod bod meddygon iau yn fodlon gwneud gwaith ychwanegol i gefnogi eu datblygiad personol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn annog gweithio oriau ychwanegol yn rheolaidd a gallai gael effaith bosibl ar fandiau cyflog meddygon iau ac arwain at daliadau cyflog mwy.

- 
30. Er bod lefelau swyddi gwag yn debyg i'r rheini mewn Byrddau Iechyd eraill, mae ffaith na ellir llenwi rotâu meddygon iau yn creu anawsterau lleol. Lle mae swyddi gwag yn bodoli, gall meddygon iau weithio oriau ychwanegol dros dro neu gellir cyflogi meddyg locwm. Nid yw'r naill ateb na'r llall yn ddelfrydol, ac yn anochel, ceir llai o hyblygrwydd o ran rotâu. Deallwn, er bod swyddi gwag yn parhau'n her, fod meddygon iau yn cymryd rhan briodol mewn trafodaethau ynghylch opsiynau cyflenwi rotâu pan fo prinder staff. Mae atebion arfaethedig hefyd yn anelu at sicrhau y caiff gofynion y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd eu bodloni o hyd.
  31. Gall meddygon iau, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ddewis peidio â chydymffurfio â'r wythnos waith 48 awr. Ceir tystiolaeth bod hyn ar waith i raddau yn yr adran Anestheteg lle mae meddygon iau yn dewis cyflenwi sifftiau locwm, ond nid yw'n gyffredin ar draws y Bwrdd Iechyd.

## **Nid yw cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn rhan o fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd**

32. Caiff prinder staff ar rotâu meddygon iau a materion yn ymwneud ag effaith cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd eu nodi ac eir i'r afael â hwy ar lefel leol/cyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ac unrhyw faterion cysylltiedig yn ymwneud â darparu gwasanaeth yn rhan glir o drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Bwrdd Iechyd eto.
33. Mae Bwrdd y Gweithlu Meddygol, sy'n un o is-bwyllgorau Bwrdd Moderneiddio'r Gweithlu, yn adolygu lefelau swyddi gwag meddygol yn enwedig lle ceir problemau amlwg. Mae'n canolbwyntio ar swyddi sy'n anodd eu llenwi a datblygu atebion dros dro, megis y prinder staff diweddar mewn graddau canol Niwroleg. Nid yw'r Bwrdd yn monitro cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar hyn o bryd.
34. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu 'Fframwaith Llywodraethu/Sicrwydd Integredig' newydd ar gyfer monitro a rheoli perfformiad, sy'n ymgorffori systemau llywodraethu clinigol a chorfforaethol. Deallwn y caiff cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ei gynnwys yn y fframwaith. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto sut y cyflwynir adroddiadau ar asesiadau o gydymffurfiaeth neu faterion darparu gwasanaeth cysylltiedig.

## Atodiad 1

## Ymatebion Holiadur Meddygon Ymgynghorol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (2010)

Daw'r wybodaeth isod o arolwg o feddygon ymgynghorol a gyflogir gan Fyrddau Iechyd ledled Cymru, a gynhaliwyd gennym yn 2010 fel rhan o waith archwilio ar gontract meddygon ymgynghorol. Cafwyd cyfanswm o 580 o ymatebion ledled Cymru, y cafwyd 110 oddi wrth Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, gyda chyfanswm o 109 o feddygon ymgynghorol yn cwblhau'r adran ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

| A yw'r arbenigedd/adran lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith wedi gwneud newidiadau penodol dros y 18 mis diwethaf er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau? | Canran     |            |
|---|------------|------------|
|   | BILI PABM  | Cymru      |
|   | Atebodd Do | Atebodd Do |
| Ailwampio rotâu meddygon iau  | 72.7%      | 68.1%      |
| Gwell defnydd o uwch ymarferwyr nyrsio  | 34.5%      | 30.9%      |
| Defnydd estynedig o feddygon ymgynghorol  | 46.4%      | 41.0%      |
| Ailwampio'r gweithlu mewn ffordd arall  | 8.2%       | 14.7%      |
| Defnydd estynedig o fentrau Ysbytai Liw Nos/Ysbytai yn ystod y Dydd/Ysbytai dros y Penwythnos   | 20.9%      | 24.0%      |
| Ad-drefnu'r gwasanaeth  | 27.3%      | 21.0%      |
| Arall *   | 8.2%       | 10.2%      |

| Nifer      |            |
|------------|------------|
| BILI PABM  | Cymru      |
| Atebodd Do | Atebodd Do |
| 80         | 395        |
| 38         | 179        |
| 51         | 238        |
| 9          | 85         |
| 23         | 139        |
| 30         | 122        |
| 9          | 59         |

| A roddwyd rhanddirymiad dros dro i'r arbenigedd/adran lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith o ran y terfyn amser o 48 awr ar gyfartaledd i feddygon iau? | Canran    |       |
|--|-----------|-------|
|  | BILI PABM | Cymru |
| Do   | 4.7%      | 6.5%  |
| Naddo  | 62.6%     | 65.2% |
| Ddim yn gwybod   | 32.7%     | 28.3% |

| Cyfrif    |       |
|-----------|-------|
| BILI PABM | Cymru |
| 5         | 36    |
| 67        | 362   |
| 35        | 157   |

| Yn eich profiad chi, a yw meddygon iau yn dal i orfod gweithio mwy o oriau na'r hyn a nodwyd mewn rotâu cytûn yn rheolaidd er mwyn bodloni gofynion y swydd? | Canran    |       |
|--|-----------|-------|
|  | BILI PABM | Cymru |
| Ydyn   | 24.3%     | 21.3% |
| Nac ydyn   | 43.9%     | 54.1% |
| Ddim yn gwybod   | 31.8%     | 24.7% |

| Cyfrif    |       |
|-----------|-------|
| BILI PABM | Cymru |
| 26        | 118   |
| 47        | 300   |
| 34        | 137   |

| Wrth feddwl am yr arbenigedd/adran lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith, sut y byddech yn disgrifio effaith y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar: Hyfforddiant a datblygu sgiliau meddygon iau? | Canran    |       |
|---|-----------|-------|
|   | BILI PABM | Cymru |
| Effaith gadarnhaol  | 0.9%      | 1.4%  |
| Dim effaith   | 10.3%     | 13.4% |
| Effaith negyddol  | 83.2%     | 78.5% |
| Ddim yn gwybod  | 5.6%      | 6.6%  |

| Cyfrif    |       |
|-----------|-------|
| BILI PABM | Cymru |
| 1         | 8     |
| 11        | 75    |
| 89        | 438   |
| 6         | 37    |

| Wrth feddwl am yr arbenigedd/adran lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith, sut y byddech yn disgrifio effaith y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar: Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn eich arbenigedd? | Canran    |       |
|---|-----------|-------|
|   | BILI PABM | Cymru |
| Effaith gadarnhaol  | 1.9%      | 1.6%  |
| Dim effaith   | 19.6%     | 19.7% |
| Effaith negyddol  | 72.0%     | 72.0% |
| Ddim yn gwybod  | 6.5%      | 6.6%  |

| Cyfrif    |       |
|-----------|-------|
| BILI PABM | Cymru |
| 2         | 9     |
| 21        | 110   |
| 77        | 401   |
| 7         | 37    |

| Wrth feddwl am yr arbenigedd/adran lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith, sut y byddech yn disgrifio effaith y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar: Ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a ddarperir yn eich arbenigedd/adran? | Canran    |       |
|---|-----------|-------|
|   | BILI PABM | Cymru |
| Effaith gadarnhaol  | 2.8%      | 2.7%  |
| Dim effaith   | 17.8%     | 25.8% |
| Effaith negyddol  | 71.0%     | 63.4% |
| Ddim yn gwybod  | 8.4%      | 8.1%  |

| Cyfrif    |       |
|-----------|-------|
| BILI PABM | Cymru |
| 3         | 15    |
| 19        | 143   |
| 76        | 351   |
| 9         | 45    |

| Wrth feddwl am yr arbenigedd/adran lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith, sut y byddech yn disgrifio effaith y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar: lechyd a lles meddygon iau? | Canran    |       |
|---|-----------|-------|
|   | BILI PABM | Cymru |
| Effaith gadarnhaol  | 11.2%     | 19.0% |
| Dim effaith   | 33.6%     | 32.3% |
| Effaith negyddol  | 31.8%     | 28.9% |
| Ddim yn gwybod  | 23.4%     | 19.7% |

| Cyfrif    |       |
|-----------|-------|
| BILI PABM | Cymru |
| 12        | 106   |
| 36        | 180   |
| 34        | 161   |
| 25        | 110   |







---

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ  
Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn Testun: 029 2032 0660  
E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)